Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanfarian
# Y Caban
# Ysgol Gynradd Llanfarian
# Llanfarian
# Aberystwyth
# SY23 4DA

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/01/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Llanfarian, sydd yn cyfarfod yn Y Caban, Ysgol Gynradd Llanfarian, ym mhentref gwledig Llanfarian ger Aberystwyth, Ceredigion. Mae'r lleoliad ar agor am bum bore'r wythnos ac wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 20 o blant rhwng dwy a phedair blwydd oed. Mae naw plentyn yn cael eu hariannu i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae bron pob un o'r plant o gefndir gwyn Prydeinig a daw ychydig iawn o gartrefi sy'n siarad Cymraeg. Ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi dau aelod o staff amser llawn cymwysedig, ac un ymarferydd ychwanegol yn achlysurol yn ôl y galw. Mae'r lleoliad wedi bod trwy gyfnod o newidiadau staffio sylweddol yn ddiweddar. Penodwyd yr arweinydd presennol i'w swydd ddiwedd mis Medi 2017, a'r is-arweinydd ddiwedd mis Hydref. Nid oes gan y staff brofiad blaenorol yn eu swyddi presennol.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Gorffennaf 2017, a chan Estyn ym mis Gorffennaf 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o blant yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu cynnar effeithiol
- rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn ymuno'n frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau ysgogol
- darpariaeth briodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant
- perthynas gadarnhaol, hapus, rhwng oedolion a phlant ac ymysg y plant â'i gilydd
- y lleoliad yn amgylchedd diogel sy'n hyrwyddo lles y plant yn effeithiol
- ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau yn yr ardaloedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored sy'n ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus

Fodd bynnag:

- mae medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y plant yn gyfyngedig
- nid yw'r cynllunio yn sicrhau cyfleoedd priodol i'r plant gymhwyso eu medrau, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ar draws y meysydd dysgu
- nid yw plant bob amser yn cael eu herio yn unol â'u galluoedd
- nid yw asesiadau'n cael eu cofnodi'n rheolaidd nac yn cael eu defnyddio i symud plant ymlaen at y camau nesaf yn eu dysgu yn gyson

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- datblygiadau diweddar yn dechrau dangos gwelliannau mewn darpariaeth ac mewn deilliannau'r plant
- yr arweinydd newydd yn frwdfrydig a chanddi agweddau cadarnhaol ac ymarferol i ddatblygu ei sgiliau a'i rôl yn y lleoliad
- gan yr arweinydd weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu'r lleoliad sy'n seiliedig ar godi safonau plant, yn enwedig eu medrau Cymraeg
- y pwyllgor rheoli'n darparu cyfeiriad strategol clir i waith yr arweinwyr
- y pwyllgor rheoli a'r arweinydd yn hunanwerthuso'n briodol gyda chefnogaeth yr athrawes ymgynghorol a'r Mudiad Meithrin ac yn targedu anghenion y lleoliad yn briodol
- y pwyllgor rheoli yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr ddatblygu'n broffesiynol trwy drefnu iddynt fynychu hyfforddiant penodol

Fodd bynnag:

- nid yw'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn gwneud defnydd digon effeithiol o arsylwadau uniongyrchol er mwyn gwerthuso ansawdd yr addysgu a'i effaith ar safonau'r plant
- mae'r arweinwyr yn dibynnu'n ormodol ar gefnogaeth allanol i wella ansawdd y lleoliad

## Argymhellion

A1 Codi safonau medrau llafar y plant

A2 Sicrhau bod ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y meysydd dysgu

A3 Gwella dealltwriaeth ymarferwyr o ba bryd a sut i ddatblygu medrau'r plant wrth ymuno â'u chwarae ac i'w herio'n fwy effeithiol

A4 Cryfhau gweithdrefnau asesu a defnyddio'r wybodaeth er mwyn cynllunio camau nesaf yn y dysgu

A5 Datblygu rôl arweinwyr wrth fonitro effaith ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ar ddeilliannau plant er mwyn cyfrannu'n well at brosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn gyffredinol, mae llawer o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn yn y rhan fwyaf o'u medrau o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf yn galw dysgu blaenorol i gof yn briodol, er enghraifft wrth ganu caneuon cyfarwydd. Mae llawer o'r plant yn datblygu medrau datrys problemau addas, er enghraifft wrth ddewis yr offer mwyaf priodol ar gyfer creu cacennau yn y gegin fwd. Mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr gweithgar, sy'n arddangos datblygiad medrau meddwl priodol trwy wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dewisiadau chwarae.

Mae rhan fwyaf y plant yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau gan ymarferwyr. Maent yn dechrau ymateb yn addas yn y Gymraeg o bryd i'w gilydd trwy ailadrodd geiriau syml yn ystod gweithgareddau ffocws. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae cynnydd rhan fwyaf y plant yn eu medrau llafar Cymraeg yn gyfyngedig. Nid yw'r plant yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg wrth ymateb i oedolion neu yn ystod eu sgyrsiau anffurfiol gyda'i gilydd.

Mae llawer o'r plant yn datblygu medrau darllen cynnar effeithiol. Maent yn adnabod eu henwau eu hunain ac enwau rhai plant eraill mewn print wrth hunangofrestru ac wrth i'w henwau gael eu tynnu o gwdyn. Mae'r mwyafrif o'r plant yn mwynhau gwrando ar storïau. Wrth ddewis llyfrau yn yr ardal ddarllen, mae llawer yn dal llyfr fel darllenydd yn gywir ac yn ymateb yn frwdfrydig i lyfrau. Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o blant yn datblygu'n dda. Mae'r lleiafrif yn dechrau ysgrifennu eu henwau yn annibynnol ar ddarnau o waith, gan ffurfio llythrennau'n briodol. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio eu medrau yn llwyddiannus ar draws yr ardaloedd dysgu, er enghraifft wrth ysgrifennu rhestr siopa.

Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau rhifedd. Mae tua hanner y grŵp yn cyfrif gwrthrychau i bedwar neu fwy yn annibynnol, gan gyfatebu un i un yn ddibynadwy. Mae lleiafrif yn cyfri'r plant sy'n bresennol yn y dosbarth, gyda chymorth oedolyn. Mae'r mwyafrif yn dechrau adnabod rhifau i ddeg ar linell rhif wrth gyfrif gyda'r arweinydd. Wrth gyfatebu cardiau, mae llawer yn adnabod patrymau a siapiau a gwahaniaethu rhwng delweddau bach a mawr yn gywir.

Mae medrau corfforol bron pob un plentyn yn datblygu'n dda. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn herio'u hunain yn gyffrous wrth chwarae yn yr ardal allanol gan redeg lan a lawr llethr yn fedrus. Mae lleiafrif yn defnyddio siswrn yn fedrus wrth dorri papur yn ystod gweithgaredd creadigol.

Mae llawer o'r plant yn arddangos medrau creadigol da, er enghraifft wrth dynnu lluniau gyda phinnau ffelt yn annibynnol a'u haddurno yn fedrus.

Mae medrau TGCh llawer o blant yn datblygu'n addas. Maent yn defnyddio llechen electronig fel camera ac i chwarae gemau, er enghraifft. Mae'r lleiafrif yn dechrau rhoi cyfarwyddiadau syml i degan rhaglenadwy yn addas o dan gefnogaeth oedolyn. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio eu medrau TGCh yn ddigon cyson ar draws y meysydd dysgu.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn hapus yn cyrraedd y lleoliad a thrwy gydol y cyfnod yno. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i oedolion cyfarwydd ac yn ymuno yn y gweithgareddau yn hyderus.

Yn gyffredinol, mae bron pob plentyn yn arddangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu, ac mae llawer ohonynt yn canolbwyntio'n dda yn ystod eu tasgau. Mae'r rhan fwyaf yn ymddiddori mewn gweithgareddau grŵp ac yn mwynhau'r rhan fwyaf o dasgau a ddarperir ar eu cyfer. Mae rhan fwyaf y plant yn rhannu adnoddau yn dda ac yn gweithio'n synhwyrol gyda phlant eraill. Mae'r lleiafrif yn llwyddo tacluso ar gais yr arweinydd ar ddiwedd y bore.

Mae bron pob un yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at oedolion ac at ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus a pharchus ar ymarferwyr.

Mae'r plant yn hapus i gyfrannu yn eu tro yn ystod amser byrbryd, sy'n datblygu eu hunan-barch a'u hunanhyder yn effeithiol. Maent yn dechrau cymryd cyfrifoldeb yn addas, er enghraifft wrth ddosbarthu llestri a rhannu bwyd, ac yn dechrau datblygu dealltwriaeth briodol o fwyta'n iach.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau synhwyrol yn ystod chwarae rhydd. Maent yn penderfynu symud o un ardal i'r llall yn annibynnol ac yn hyderus tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored. Mae'r mwyafrif yn datblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth newid eu hesgidiau.

Mae bron pob plentyn yn datblygu eu hymwybyddiaeth o hylendid yn briodol. Maent yn golchi eu dwylo'n drylwyr ar ôl defnyddio'r toiled, chwarae yn yr awyr agored, a chyn byrbryd, gydag anogaeth gan yr oedolion.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau rhan fwyaf y plant yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol gan adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn addas. Mewn amser byr ers ei phenodiad, mae'r arweinydd wedi sefydlu ardaloedd darpariaeth barhaus ysgogol, fel y filfeddygfa a'r gegin fwd, er mwyn cymell y plant i ddysgu. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n gydwybodol gyda'i gilydd i ddarparu gweithgareddau diddorol sy'n cymell plant i ddysgu'n ymarferol, er enghraifft wrth ymarfer gyda siswrn yn yr ardal grefft. Maent yn cynllunio profiadau dysgu sydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at frwdfrydedd y plant ac yn adeiladu'n briodol ar eu gwybodaeth a dealltwriaeth. Yn ddiweddar iawn, mae'r ymarferwyr wedi dechrau cynnig cyfleoedd addas i'r plant gyfrannu at y cynllunio wrth drafod y thema.

Mae cynlluniau ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh plant o fewn tasgau ffocws yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynnal sesiynau canu rheolaidd sydd yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau ieithyddol y plant. Mae'r gweithgareddau darllen yn ennyn diddordeb y plant i fod yn ddarllenwyr yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn mynd i'r afael â

gofynion datblygu medrau llafar y plant yn ddigonol. Mae’r lleoliad wedi dechrau darparu cyfleoedd priodol i blant ddefnyddio offer TGCh. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i’r plant gymhwyso eu medrau, gan gynnwys eu medrau TGCh, ar draws y meysydd dysgu.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru a gwledydd eraill yn llwyddiannus. Gwna’r ymarferwyr ddefnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant. O ganlyniad, mae gan y plant ymwybyddiaeth gadarn o’u milltir sgwâr a dealltwriaeth o rolau pobl yn eu cymuned.

### Addysgu: Digonol

Mae’r ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes wrth iddynt gyrraedd y lleoliad ac maent yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol. Maent yn annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn y gweithgareddau yn briodol. Mae’r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth addas am ddatblygiad plant, ac yn deall gofynion y cyfnod sylfaen yn briodol. Maent yn cydweithredu â’i gilydd yn ddigonol wrth gynllunio gweithgareddau. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd synhwyrol rhwng gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd y plant a gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan oedolion. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i alluogi’r plant i ddysgu trwy brofiadau ymarferol a thrwy chwarae. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn bob tro o ba bryd i gymryd rhan yn chwarae’r plant er mwyn eu holi a datblygu’u medrau’n effeithiol. O ganlyniad, nid yw’r plant yn gwneud y cynnydd gorau posibl bob tro, yn enwedig mewn gweithgareddau mwy annibynnol.

Yn gyffredinol, mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y mwyafrif o’r plant ac maent yn herio’r plant hŷn yn gyson mewn tasgau ffocws. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymestyn y plant mwy galluog yn ddigon rheolaidd a chyson. Mae’r ymarferwyr yn holi plant yn llwyddiannus yn y tasgau ffocws er mwyn datblygu eu medrau rhifedd a llythrennedd, er enghraifft wrth gyfatebu a pharu lluniau. Maent yn modelu’r iaith Gymraeg yn gyson ac yn annog y plant i ymateb yn addas. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw’r patrymau iaith a ddefnyddir yn hollol gywir.

Mae’r ymarferwyr yn dechrau datblygu system i gofnodi arsylwadau yn rheolaidd a nodi’r camau nesaf. Maent hefyd yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn anffurfiol am gyflawniadau eu plant. Fodd bynnag, nid yw’r asesu yn llywio’r cynllunio yn ddigon effeithiol i dargedu anghenion plant unigol a’r camau nesaf yn eu dysgu.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd pwrpasol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae yno gymuned groesawgar a chynhwysol ac mae’r arferion dyddiol a’r gweithgareddau deniadol, y tu mewn a’r tu allan, yn helpu plant i deimlo’n gysurus a diogel yno. Mae’r staff a’r plant yn parchu ei gilydd ac yn mwynhau cydweithio yn y lleoliad.

Mae trefniadau effeithiol gan y lleoliad i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae’r rhain yn cyfrannu’n gadarnhaol at eu datblygiad ac yn cefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Mae’r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd dyddiol gwerthfawr ar gyfer gweithgareddau corfforol y tu allan.

Mae’r lleoliad yn hybu bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus adeg byrbryd. Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddweud diolch bob dydd am eu bwyd. Maent yn rhoi cyfleoedd defnyddiol ac ymarferol iddynt i gyd i weini a chynorthwyo ei gilydd, sy’n hyrwyddo eu hunan-barch a’u hannibyniaeth. O ganlyniad, mae plant yn cymryd eu tro’n gwrtais wrth fwyta byrbryd o amgylch y bwrdd. Mae biniau ailgylchu yn y lleoliad ac mae’r plant yn cael eu hannog i’w defnyddio yn briodol.

Mae’r arweinwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, gyda chanmoliaeth gyson pan fydd hynny’n briodol. O ganlyniad, mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda ac yn teimlo’n ddiddig ac yn ddiogel yng nghwmni ei gilydd. Maent yn cael eu hannog i gydweithio’n gyfeillgar wrth rannu tasgau yn yr ardal adeiladu ac wrth chwarae rôl yn y filfeddygfa, er enghraifft.

Mae’r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae’r ymarferwyr yn cymryd gofal o’r plant drwy’r adeg, gan gynnwys pan fyddant yn cyrraedd a gadael. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr wedi adnabod yr ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Maent yn ymgynghori ag asiantaeth allanol yn briodol ac yn derbyn cyngor yn addas er mwyn ymateb i anghenion y plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned gynhwysol a chroesawgar lle mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i’r holl brofiadau dysgu. Mae’r ymarferwyr yn parchu pob plentyn fel unigolyn ac yn dathlu amrywiaeth.

Mae’r adeilad a’r ardal allanol o ansawdd da, yn cael eu cynnal a’u cadw’n rheolaidd, yn ddiogel ac wedi eu dodrefnu’n briodol. Mae’r ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau y tu mewn a’r tu allan yn bwrpasol i fodloni y rhan fwyaf o ofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant. Fodd bynnag, nid yw adnoddau TGCh bob amser ar gael. Caiff pob plentyn ddewis o blith yr holl gyfleoedd chwarae sydd allan ar eu cyfer. Mae’r gweithgareddau parhaus, ffocws a thasgau cyfoethogi yn gwneud defnydd o adnoddau dysgu yn effeithiol.

Mae’r ymarferwyr yn arddangos gwaith creadigol y plant yn effeithiol gan ddangos parch at eu gwaith.

Mae’r ardal awyr agored newydd gael ei hymestyn i gynnwys ardal wyllt, lle mae lle digonol i’r plant ddringo a herio ei gilydd yn gorfforol. Mae’r gegin fwd a’r filfeddygfa yn ardaloedd cyffrous sy’n denu plant ac yn darparu cyfleoedd da iddynt ddatblygu eu medrau. Ymhlith yr ardaloedd chwarae tu allan, mae gardd synhwyrau a photiau blodau y mae’r plant wedi eu plannu sy’n cynnig cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o fyd natur.

Mae’r lleoliad yn manteisio ar gydweithrediad parod yr ysgol gyfagos i estyn cyfleoedd i’r plant datblygu’n gorfforol trwy fynd ar eu beiciau a rhedeg ar fuarth yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

## Arweinyddiaeth: Digonol

Yn dilyn cyfnod ansefydlog o ran arweinyddiaeth a staffio, mae'r arweinydd newydd yn gweithio'n agos gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod a'r pwyllgor rheoli i sefydlu cyfeiriad strategol pwrpasol i'r lleoliad. Mae ganddi weledigaeth gadarn ar gyfer datblygu'r lleoliad sy'n seiliedig ar godi safonau plant, yn enwedig eu medrau Cymraeg. Mae wedi rhannu'r weledigaeth hon yn addas gyda'r staff, rhieni a'r pwyllgor rheoli. Ers ei phenodiad, mae wedi ymdrechu'n galed i ddatblygu ei dealltwriaeth o sut i arwain lleoliad er mwyn codi safonau plant a gwella ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r arweinydd yn gweithio'n effeithiol gyda'r athrawes ymgynghorol, Mudiad Meithrin ac aelodau'r pwyllgor rhieni i ddechrau cyflwyno nifer o weithdrefnau gwerthfawr. Er yn eu dyddiau cynnar, mae'r rhain yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar fedrau plant. Er enghraifft, mae'r gwaith ar ddatblygu rhifedd yn cael effaith gadarnhaol ar allu rhan fwyaf y plant i gyfrif ac adnabod rhifau yn llwyddiannus. Mae'r arweinydd yn cychwyn rhannu'r arferion hyn yn addas gydag ymarferwyr eraill. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau'n ddigon trylwyr i alluogi arweinwyr i werthuso effaith ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu ar ddeilliannau plant neu wedi cael digon o amser i ymgorffori'n llawn i fywyd dydd i ddydd y lleoliad.

Mae cyfarfodydd staff anffurfiol yn sicrhau bod ymarferwyr yn cyfrannu syniadau priodol wrth gynllunio gweithgareddau dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio'n sicrhau digon o gyfleoedd i blant bob tro gymhwyso'u medrau wrth weithio yn yr ardaloedd dysgu. Mae gan arweinwyr ymwybyddiaeth addas o flaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu gweithdrefnau i annog plant i fod yn annibynnol, er enghraifft wrth hunangofrestru yn y bore.

Mae'r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn i waith y lleoliad. Maent yn gydwybodol ac yn chwarae rhan flaenllaw wrth wella'r arweinyddiaeth, darpariaeth a safonau. Maent yn defnyddio eu harbenigedd yn effeithiol i gynnig cyngor i'r ymarferwyr yn ôl yr angen ac i helpu gwneud gwelliannau i'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth sefydlu ardaloedd darpariaeth barhaus. Mae gan aelodau'r pwyllgor ddisgwyliadau uchel o'r lleoliad, ac yn defnyddio prosesau fel rheoli perfformiad i fynd i'r afael ag unrhyw agweddau sydd angen eu datblygu yn dda. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am gryfderau'r lleoliad a meysydd ar gyfer gwelliant ac yn gweithredu'n bwrpasol fel ffrindiau beirniadol.

## Gwella ansawdd: Digonol

Mae arweinwyr, o dan gefnogaeth fuddiol yr athrawes ymgynghorol, wedi datblygu ystod addas o weithgareddau hunanarfarnu. Er mai datblygiad diweddar iawn yw hwn, mae arweinwyr yn dechrau defnyddio gwybodaeth sy'n deillio o weithdrefnau hunanarfarnu fel arsylwadau anffurfiol, adroddiadau'r awdurdod ac ystyried safbwynt rhieni i ddatblygu ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r lleoliad a meysydd ar gyfer gwelliant. Gyda chefnogaeth yr athrawes ymgynghorol, maent yn bwydo'r wybodaeth yn effeithiol i greu adroddiad hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau'n gwneud defnydd digon effeithiol o arsylwadau uniongyrchol er mwyn gwerthuso ansawdd yr addysgu a'i effaith ar safonau'r plant.

Mae cyswllt amlwg rhwng blaenoriaethau yn yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun gwella. Mae gan y cynllun nifer synhwyrol o dargedau ynghyd â chamau gweithredu defnyddiol ar gyfer bodloni'r blaenoriaethau. Mae'r cynllun yn nodi cyfrifoldebau staff yn glir ac wedi'i gostio'n briodol. Mae arweinwyr yn cychwyn gwerthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn addas gan ddefnyddio'r meini prawf llwyddiant. O ganlyniad, mae'r cynllun gwella yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar elfennau o'r ddarpariaeth a safonau, er enghraifft wrth ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o ganeuon Cymraeg.

Er bod gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn dechrau dwyn ffrwyth mewn ychydig o feysydd, nid yw'r arweinwyr wedi cael digon o amser i ymgorffori'r arferion yn llawn ym mywyd y lleoliad o ddydd i dydd. Yn gyffredinol, nid oes gan arweinwyr ddigon o berchnogaeth dros y gweithdrefnau hunanarfarnu eto ac maent yn dibynnu'n ormodol ar gefnogaeth allanol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau gwerthfawr sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at gyfoethogi profiadau plant ynghyd â gwella'u safonau a lles.

Mae gan y lleoliad berthynas gref gyda rhieni. Mae'r lleoliad wedi cryfhau'r cyswllt yn ddiweddar, gan ymateb i holiaduron rhieni, ac wedi ailsefydlu tudalen ar gyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am waith y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae'r rhieni'n gweithio'n agos gyda'r lleoliad er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu, er enghraifft drwy adeiladu sied i greu ardal chwarae rôl milfeddyg yn yr ardal allanol. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i gynllunio gweithgareddau ysgogol yn yr awyr agored i ddatblygu medrau'r plant.

Mae partneriaeth effeithiol yn bodoli gyda'r awdurdod addysg a Mudiad Meithrin. Mae'r Mudiad Meithrin wedi sicrhau bod gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer eu gwaith dyddiol. Mae'r athrawes ymgynghorol yn gweithio'n agos iawn gydag ymarferwyr er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o egwyddorion y cyfnod sylfaen ac i wella elfennau o'r ddarpariaeth. Mae'r gwaith hwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar agweddau o'r ddarpariaeth a safonau. Er enghraifft, mae prosesau cynllunio newydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau ffocws defnyddiol ar gyfer datblygu medrau penodol.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Mae aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r lleoliad yn aml, er enghraifft i addysgu'r plant am anifeiliaid y fferm. Mae'r gweithgareddau gyda'r archfarchnad leol, er enghraifft, yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o sut mae'r bwyd yn cyrraedd eu platiau yn llwyddiannus.

Mae cysylltiadau buddiol yn bodoli rhwng y lleoliad â'r ysgol gynradd leol, sydd ar yr un campws. Mae gweithgareddau fel canu ar y cyd yn rheolaidd a chyngherddau, yn sicrhau trosglwyddo esmwyth rhwng y lleoliad a'r ysgol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan y lleoliad nifer priodol o staff er mwyn darparu cwricwlwm cyfnod sylfaen ysgogol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn datblygu'u dealltwriaeth o arferion y cyfnod sylfaen yn gadarn drwy weithio i ennill cymwysterau priodol.

Mae’r pwyllgor rheoli yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr ddatblygu’n broffesiynol.  Maent yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt arsylwi ar arfer dda ac i fynychu hyfforddiant penodol.  Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar yr arweinyddiaeth, y ddarpariaeth a deilliannau plant.  Mae cyfleoedd pwrpasol iddynt fynychu hyfforddiant fel cymorth cyntaf a hylendid bwyd yn sicrhau eu bod yn gallu gweithredu eu rôl yn addas.

Mae arweinwyr yn cysylltu gwariant â blaenoriaethau gwella yn synhwyrol.  Maent yn gweithio’n ddiwyd i drefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer y lleoliad.  Mae arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o’r grant datblygu blynyddoedd cynnar, er enghraifft i ddarparu hyfforddiant staff ar gyfer datblygu lles a medrau llythrennedd a rhifedd plant.

Yn gyffredinol, mae gan y lleoliad ystod eang o adnoddau o safon dda i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y cyfnod sylfaen yn briodol.  Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o’r adnoddau i gynllunio profiadau ysgogol ar gyfer y plant tu fewn ac yn yr awyr agored.  Enghraifft effeithiol o hyn yw’r defnydd o’r gegin fwd i ddatblygu medrau corfforol y plant.  Mae’r adnoddau yn hygyrch i’r plant ac yn hybu eu hannibyniaeth yn llwyddiannus.  Fodd bynnag, nid oes gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh er mwyn datblygu medrau’r plant yn ddigon effeithiol.

O ystyried deilliannau plant ac effaith y ddarpariaeth, mae’r lleoliad yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |